



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Rhif: WG46246

Llywodraeth Cymru

**Dogfen Ymgynghori**

## **Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020**

Ymgynghoriad ar y Canllawiau Statudol sydd eu hangen i weithredu'r ddyletswydd ansawdd a disodli'r safonau iechyd a gofal (2015)

Dyddiad cyhoeddi: 25 Hydref 2022

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 17 Ionawr 2023

## Trosolwg

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn gosod dyletswydd ansawdd ar gyrff y GIG yng Nghymru. Mae'r Ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar y Canllawiau Statudol sydd eu hangen i weithredu'r ddyletswydd honno, ac ar gyflwyno'r meysydd a'r galluogwyr ansawdd sy'n disodli'r Safonau Iechyd a Gofal a gyhoeddwyd yn 2015.

## Sut i ymateb

Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 17 Ionawr 2023

Gallwch ymateb ar-lein, drwy e-bost neu drwy'r post.

## Ar-lein

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru.

## E-bost

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon at [IGCAnsawddacYmgysylltu@llyw.cymru](mailto:IGCAnsawddacYmgysylltu@llyw.cymru)

## Post

Yr Is-adran Gofal Iechyd Poblogaethau  
Y Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Yr Is-adran Gofal Iechyd Poblogaethau

Y Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Cyfeiriad e-bost: [IGCAwsawddacYmgysylltu@llyw.cymru](mailto:IGCAwsawddacYmgysylltu@llyw.cymru)

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd

This document is also available in English: [hyperlink](#)

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o ymatebion i ymgynghoriad gellir comisiynu'r gwaith hwn i'w gynnal gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gcontract yr ymgwymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion cyn cyhoeddi eich ymateb. Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn a gyhoeddir eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch fel arall yn cael eu cadw am dair blynedd fan bellaf.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych chi hawl:

- i gael gwybod am y data personol sy'n cael eu cadw amdanoch chi, ac i gael gweld y data hynny
- i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu atal prosesu (mewn rhai amgylchiadau penodol)
- i'ch data gael eu 'dileu' (mewn amgylchiadau penodol)
- i allu cludo data (mewn amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio, neu os ydych chi am arfer eich hawliau o dan reoliad GDPR y DU, defnyddiwch y manylion cyswllt isod.

Y Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ  
[Ebost: SwyddogDiogeluDatar@llyw.cymru](mailto:SwyddogDiogeluDatar@llyw.cymru)

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Swydd Gaer SK9 5AF  
01625 545 745 neu 0303 123 1113  
0303 123 1113

## Cynnwys

|                                                                                |    |
|--------------------------------------------------------------------------------|----|
| Rhagair y Gweinidog .....                                                      | 6  |
| Cyflwyniad .....                                                               | 8  |
| Trosolwg o'r Ddeddf a'r fframwaith deddfwriaethol .....                        | 8  |
| Adran 1 Yr hyn rydym yn gobeithio ei gyflawni gyda'r ddyletswydd ansawdd ..... | 10 |
| Adran 2 Diffinio ansawdd, galluogwyr ansawdd a safonau ansawdd .....           | 14 |
| Adran 3 Bodloni'r gofynion adrodd ar ddyletswydd ac ansawdd .....              | 17 |
| Adran 4 Y Bwrdd - gwneud penderfyniadau, monitro a sicrwydd .....              | 19 |
| Adran 5 Asesiadau Effaith Integredig .....                                     | 21 |
| Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad .....                                         | 23 |

# Rhagair gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae cyflwyno'r ddyletswydd gonestrwydd drwy Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020<sup>1</sup> ('y Ddeddf'), yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wasanaethau iechyd diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ansawdd troswaol ar Weinidogion Cymru ynghylch eu swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae'n ehangu'r ddyletswydd bresennol ar gyrff y GIG (Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru).

Yn y pen draw, pwrpas y ddyletswydd ansawdd yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru a chyrff y GIG yn sicrhau gwelliannau yn ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae'r ddyletswydd yn cynrychioli ein huchelgais o gyrraedd safonau uwch byth o wasanaethau iechyd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yng Nghymru.

Mae ansawdd yn fwy na dim ond bodloni safonau gwasanaeth. Mae angen iddo fod yn ffordd o weithio drwy'r system gyfan. Mae ansawdd yn golygu gofal iechyd diogel, amserol, effeithiol, effeithlon, teg a pherson-ganolog sydd wedi'i wreiddio mewn diwylliant o ddysgu a gwella parhaus.

Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a chyrff y GIG fynd ati i ystyried y meysydd ansawdd hyn wrth wneud penderfyniadau am wasanaethau iechyd, fel bod gwell canlyniadau'n cael eu sicrhau. Mae hyn yn cefnogi'r pum ffordd o weithio (hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio ac atal) yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>2</sup> yn ogystal â hyrwyddo nod llesiant Cymru Iachach<sup>3</sup>.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch<sup>4</sup> ym mis Medi 2021. Y bwriad oedd bod hwn yn bont tuag at y dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd newydd o dan y Ddeddf wrth inni ddod allan o bandemig y coronafeirws.

Mae'r ddyletswydd ansawdd yn gyd-ddibynnol ar Safonau Iechyd a Gofal Cymru (Ebrill 2015). Er mwyn creu cysylltiadau clir rhwng y ddyletswydd a'r safonau, mae'r canllawiau hyn bellach yn cynnwys Safonau Ansawdd newydd 2023 a fydd yn disodli'r Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015). Mae'r dull newydd hwn yn gosod

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru (2020) Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 <https://www.legislation.gov.uk/cy/asc/2020/1/contents>

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) <https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/>

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru (2019) Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-09/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf>

<sup>4</sup> Llywodraeth Cymru (2021) Fframwaith Ansawdd a Diogelwch: Dysgu a Gwella <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-09/fframwaith-ansawdd-a-diogelwch-dysgu-a-gwella.pdf>

fframwaith clir a syml ar gyfer rheoli ansawdd a fydd yn cryfhau'r cysylltiad rhwng y ddyletswydd, y safonau a'r broses rheoli ansawdd ehangach yng ngwasanaethau iechyd Cymru.

Rwy'n falch mai 'Rhoi ansawdd a diogelwch uwchlaw popeth' yw'r gwerth craidd cyntaf a ddisgrifir yn "Cymru Iachach", ein strategaeth hirdymor ar gyfer iechyd a gofal integredig yng Nghymru. Fel yr atgoffwyd ni'n ddiweddar gan Dr Tedros Adhanom Ghebreyesus, Cyfarwyddwr Cyffredinol Sefydliad Iechyd y Byd, "Quality is not a given. It takes vision, planning, investment, compassion, meticulous execution, and rigorous monitoring, from the national level to the smallest, remotest clinic."<sup>5</sup>

Mae gennym gyfle pwysig i adnewyddu a chryfhau ein hymrwymiad i "Gymru Iachach" trwy'r ddyletswydd ansawdd newydd. Mae gennym gyfrifoldeb cyfunol i sicrhau gwell ansawdd i'n gwasanaethau a gwell canlyniadau i'n poblogaeth.

Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

---

<sup>5</sup> Sefydliad Iechyd y Byd (2022) Fundamentals of Quality <https://qualityhealthservices.who.int/quality-toolkit/new-to-health-system-quality-thinking/fundamentals-of-quality>

## Cyflwyniad

Cafodd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("y Ddeddf") ei phasio ym mis Mawrth 2020 a chafodd y Cydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin 2020. Mae'n cynnwys pedair prif ran.

Mae Rhan 2 yn gosod dyletswydd ansawdd statudol ar Weinidogion Iechyd a chyrrff y GIG yng Nghymru. Bwriedir dod â'r ddyletswydd i rym o 1 Ebrill 2023 ymlaen.

Diben yr Ymgynghoriad hwn yw gwahodd barn ar y canllawiau sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu'r ddyletswydd ansawdd, sydd hefyd yn cynnwys datganiadau safonau mewn perthynas â darparu gofal iechyd gan ac ar gyfer cyrrff GIG Cymru, a gaiff eu llunio a'u cyhoeddi o dan Adran 47(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd a Safonau Cymunedol) 2003 ac sy'n disodli'r datganiadau safonau presennol a gyhoeddwyd yn 2015.

## Trosolwg o'r Ddeddf – y fframwaith deddfwriaethol

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ynghylch nifer o gynigion cysylltiedig sy'n ymwneud ag ansawdd ac ymgysylltu â'r cyhoedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Gyda'i gilydd, bwriedir i'r darpariaethau arwain at fudd cadarnhaol cronol i boblogaeth Cymru a rhoi amodau ar waith sy'n ffafriol i wella iechyd a llesiant:

- a. Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn rhoi trosolwg o brif ddarpariaethau'r Ddeddf.
- b. Mae Rhan 2 yn gosod dyletswydd sy'n ymwneud â gwella ansawdd gwasanaethau iechyd ar Weinidogion Cymru a Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig yng Nghymru.
- c. Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ac ynghylch Dyletswydd Gonestrwydd
- d. Mae Rhan 4 yn sefydlu Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, ac yn gwneud darpariaeth ynghylch ei swyddogaethau, sef cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol a darparu gwasanaethau eirioli mewn perthynas â chwynion. Mae hefyd yn diddymu Cynghorau Iechyd Cymuned a'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned.
- e. Mae Rhan 5 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru benodi is-gadeiryddion Ymddiriedolaethau'r GIG.

Mae'r Ymgynghoriad hwn yn gofyn am adborth ar bolisi sy'n gysylltiedig â'r ddyletswydd ansawdd (Rhan 2 o'r Ddeddf) yn unig gan fod agweddau eraill y Ddeddf yn destun ymgynghoriadau cyhoeddus ar wahân.

Mae Rhan 2 yn diwygio Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006") i fewnosod dyletswydd newydd ar Weinidogion Cymru i arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd, ac ar gyrff y GIG i arfer eu holl swyddogaethau, gyda'r nod o sicrhau gwelliant yn ansawdd y gwasanaeth iechyd, a'i gwneud yn ofynnol i'r cyrrff hynny gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y camau a gymerwyd ganddo i gydymffurfio â'r ddyletswydd ansawdd. Mae Deddf 2006 (pan gaiff ei diwygio gan Ran 2 o'r Ddeddf) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i



Weinidogion Cymru roi canllawiau i gyrff GIG Cymru mewn perthynas â'r ddyletswydd ansawdd a'r gofyniad i gyhoeddi adroddiad blynyddol.

Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i amryw o ddarnau o is-ddeddfwriaeth. Y rhai sy'n berthnasol i'r ddyletswydd ansawdd yw'r diwygiadau a'r diddymiadau sy'n ymwneud â Rhan 2 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd a Safonau Cymunedol) 2003 ("Deddf 2003"). Mae'r ddyletswydd ansawdd bresennol yn adran 45(1) o Ddeddf 2003 yn mynnu bod pob un o gyrff GIG Cymru yn sefydlu ac yn cynnal trefniadau at ddiben monitro a gwella ansawdd y gofal iechyd a ddarperir gan y corff hwnnw ac ar gyfer y corff hwnnw, a chaiff ei diddymu. Diwygir adran 47(4) o Ddeddf 2003 fel bod y safonau a nodir mewn datganiadau a wneir o dan Adran 47(1) i gael eu hystyried gan bob un o gyrff GIG Cymru wrth gyflawni'r ddyletswydd ansawdd newydd yn Neddf 2006. Diwygiwyd adran 70(3) o Ddeddf 2003 hefyd fel bod gan Weinidogion Cymru'r swyddogaeth o gynnal adolygiadau o'r camau a gymerwyd gan gorff GIG Cymru at ddiben cyflawni'r ddyletswydd ansawdd.

Mae'r ddyletswydd ansawdd ddiwygiedig yn ailwampio'r cysyniad o "ansawdd" drwy sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio yn ei ddiffiniad ehangach. Mae'r ansawdd yn cynnwys ansawdd o ran effeithiolrwydd a diogelwch gwasanaethau iechyd ac ansawdd profiad defnyddwyr gwasanaethau iechyd. Fodd bynnag, nid yw'n gyfyngedig i ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i unigolyn nac i safonau gwasanaeth. Mae'n ymwneud â sicrhau gwelliant yn ansawdd y "gwasanaethau iechyd" sy'n golygu unrhyw wasanaethau a ddarperir neu a sicheir yn unol â Deddf 2006. Yn unol â hynny, o dan y ddyletswydd ddiwygiedig bwriedir i ansawdd fod yn ffordd system-gyfan o weithio gan roi pwyslais ar ganlyniadau. Mae mewnosod y ddyletswydd newydd yn Neddf 2006 yn adlewyrchu'r pwysigrwydd y mae Gweinidogion Cymru yn ei roi ar y ddyletswydd newydd, ehangach, a dymuniad Gweinidogion Cymru i gryfhau ansawdd ymhellach a'i roi wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau mewn gwasanaethau iechyd.

Mae adran 47(1) o Ddeddf 2003 yn caniatáu i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi datganiadau safonau mewn perthynas â darparu gofal iechyd gan gyrff GIG Cymru ac ar eu cyfer. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r safonau yn gyson a chaiff gyhoeddi datganiadau diwygiedig pryd bynnag y tybir bod hynny'n briodol. Cafodd y safonau diwethaf eu cyhoeddi o dan y ddarpariaeth hon ym mis Ebrill 2015.<sup>6</sup>

Bydd adran 47(4) o Ddeddf 2003 yn cael ei diwygio gan Ran 2 o Ddeddf 2006 i'w gwneud yn ofynnol bod y safonau a nodir mewn datganiadau yn cael eu hystyried gan gorff GIG yng Nghymru wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd ansawdd yn Neddf 2006. Yn unol â hynny, mae perthynas anorfod yn bodoli rhwng dyletswydd ansawdd a'r safonau a gyhoeddwyd o dan adran 47(1) o Ddeddf 2003 a dylai safonau o'r fath felly gyd-fynd â'r ddyletswydd ansawdd a'i chefnogi. Wrth ddatblygu Canllawiau ar y Ddyletswydd Ansawdd ac adolygu Safonau Ebrill 2015, mae Gweinidogion Cymru yn cynnig yn yr ymgynghoriad hwn y dylid disodli Safonau Ebrill 2015 â'r chwe maes ansawdd a'r pum galluogwr ansawdd fel y nodir yn y Canllawiau. Mae'r newid hwn yn cael ei wneud gan fod cyflwyno'r Ddyletswydd Ansawdd yn rhoi cyfle i gysoni'r

<sup>6</sup> [Fframwaith safonau iechyd \(wales.nhs.uk\)](http://www.wales.nhs.uk)

safonau yn uniongyrchol, nid yn unig â'r ddyletswydd ond gydag arferion rheoli ansawdd ehangach ym maes iechyd. Mae'r meysydd fel y'u disgrifir yn y canllawiau hyn yn cael eu defnyddio'n helaeth ym maes gofal iechyd ac maent yn cael eu rhoi ar waith yn system iechyd ehangach Cymru. Mae adborth gan randdeiliaid yn nodi bod Safonau 2015 yn or-fanwl, yn aml yn berthnasol i ofal eilaidd yn benodol, ac yn gyfyngedig yn eu perthnasedd i'r ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y byrddau iechyd integredig. Mae Safonau Ansawdd newydd 2023 wedi'u cynllunio i symleiddio'r gofynion ac i fod yn hyblyg o ran cylch gwaith eang y Ddyletswydd Ansawdd.

Bydd yn rhaid i Arolygiaeth Iechyd Cymru (sy'n arfer swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru) hefyd ystyried y safonau hyn at ddibenion cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau yn ymwneud â Chymru o dan adran 70 o Ddeddf 2003. Dylai rhanddeiliaid fod yn ymwybodol, er bod y safonau eu hunain yn ymwneud â darparu "gofal iechyd" yn unig, bod y ddyletswydd ansawdd yn gymwys i arfer pob swyddogaeth mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd gan gorff GIG. Yn unol â hynny, mae gan y chwe maes ansawdd a'r pum galluogwr ansawdd gylch gwaith llawer ehangach yng nghyd-destun dyletswydd ansawdd yn ei gyfanrwydd a bydd yn berthnasol ym mhob gwasanaeth a lleoliad clinigol ac anghlinigol.

## Adran 1

### Yr hyn yr ydym yn gobeithio'i gyflawni drwy gyflwyno'r ddyletswydd ansawdd

Mae'r ddyletswydd yn helpu i wireddu uchelgeisiau "Cymru Iachach" a'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch mewn sawl ffordd ryng-gysylltiedig drwy sicrhau bod gwella ansawdd a chanlyniadau i bobl Cymru yn gysyniad canolog. Mae hefyd yn cefnogi'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>7</sup>, drwy annog meddwl hirdymor a gweithredu integredig a chydweithredol sy'n gweithio i gyflawni nod Llesiant "Cymru Iachach".

Yr amcanion polisi ar gyfer y ddyletswydd ansawdd hon yw:

- Sicrhau dull gweithredu ar draws y system o ran ansawdd yn y gwasanaeth iechyd er mwyn sicrhau gwelliant a symud y pwyslais oddi ar y dehongliad culach o ansawdd sy'n canolbwyntio'n benodol ar sicrwydd ansawdd.
- Ar gyfer y ddyletswydd newydd, ehangach, mynnu bod cyrff y GIG yn arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried sut y gallant wella ansawdd yn barhaus. Y nod yw y bydd gwella ansawdd, ac felly canlyniadau, i bobl yn dod yn rhan annatod a hanfodol o'r broses o wneud penderfyniadau.
- Sicrhau bod penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn cefnogi ac yn cyfrannu at y dull gweithredu hwn ar draws y system o ran ansawdd, drwy roi dyletswydd ansawdd sy'n cyfateb i ddyletswydd ansawdd cyrff y GIG, ar Weinidogion Cymru.

---

<sup>7</sup> <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted>

Mae'r canllawiau'n nodi diffiniad o ansawdd ac yn disgrifio'r gofynion cyffredinol i gryfhau ein systemau rheoli ansawdd drwy brosesau penderfynu a chynllunio sy'n cael eu llywio gan ansawdd. Yn ei dro, mae hyn yn cryfhau ein cyfrifoldebau a'n cyfleoedd o ran dysgu a rhannu. Diben y ddyletswydd yn gyffredinol yw gwella canlyniadau i'n poblogaeth.

Mae'r ddyletswydd ansawdd yn gyd-ddibynnol ar safonau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 47(1) o Ddeddf 2003. Er mwyn creu cysylltiadau clir rhwng y ddyletswydd a'r safonau, a hefyd i gyflawni'r ddyletswydd sydd ar Weinidogion Cymru i adolygu'r safonau, mae'r canllawiau hyn bellach yn ymgorffori Safonau Ansawdd newydd 2023 a fydd yn disodli'r Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

## **Cwestiwn 1**

**A yw'r Canllawiau'n glir ynghylch yr hyn rydym yn ceisio'i gyflawni gyda chyrrff y GIG drwy gyflwyno'r Ddyletswydd Ansawdd?**

**Ydynt**

**Nac ydynt**

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydynt' yw'r ymateb).**

## **I bwy mae'r ddyletswydd ansawdd yn berthnasol?**

Mae'r Ddeddf yn rhestru'r canlynol fel rhai sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn rhan 2(2) o'r Ddeddf:

- Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â'u swyddogaethau iechyd)
- Byrddau Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaethau'r GIG
- Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru'n Unig ac eithrio Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG

Mae'r ddyletswydd yn ddyletswydd sefydliadol sy'n berthnasol i holl swyddogaethau'r gwasanaeth iechyd a dylid ystyried ei defnyddio mewn lleoliadau clinigol ac anghlinigol. Mae'r holl staff yn gyfrifol am gydymffurfio â'r ddyletswydd yn eu swyddogaethau a dylid ystyried sut maent yn cymryd cyfrifoldeb dros ansawdd yn eu rôl.

## **Cwestiwn 2**

**A yw'r canllawiau ynghylch i bwy mae'r ddyletswydd ansawdd yn gymwys yn glir?**

**Ydynt**

**Nac ydynt**

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydynt' yw'r ymateb).**

Y sawl sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r ddyletswydd yw Prif Weithredwr y corff GIG neu'r Gweinidog Cymru a restrir, gyda chefnogaeth trefniadau ar gyfer dirprwyo mewnol i gabinetau, byrddau neu bwyllgorau.

Yn yr un modd â deddfwriaeth arall, argymhellir bod cyrff y GIG yn dynodi uwch arweinwyr priodol i fod yn gyfrifol am weithredu a goruchwyllo'r ddyletswydd ansawdd yn strategol. Dylid dirprwyo'r cyfrifoldeb i swyddog-aelod o'r bwrdd i sicrhau'r gweithredu a'r goruchwyllo strategol angenrheidiol. Fodd bynnag, rhaid i bob aelod o'r bwrdd, boed yn swyddogion neu beidio, sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i'r ddyletswydd ansawdd wrth ymgymryd â'u swyddogaethau gan mai cyfrifoldeb ar y cyd yw hyn.

### **Cwestiwn 3**

**A yw'r canllawiau'n ddigon clir ynghylch y strwythurau llywodraethiant sydd eu hangen?**

**Ydynt**

**Nac ydynt**

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydynt' yw'r ymateb).**

### **Cwestiwn 4**

**A fydd y strwythur llywodraethiant hwn yn cefnogi cyrff y GIG i gydymffurfio â'r ddyletswydd?**

**Bydd**

**Na fydd**

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Na fydd' yw'r ymateb).**

### **Cwestiwn 5**

**A yw'r canllawiau'n amlinellu'n glir lefel yr arweinyddiaeth sydd ei hangen mewn sefydliadau?**

**Ydynt**

**Nac ydynt**

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydynt' yw'r ymateb).**

Gan mai dim ond y cyrff GIG Cymru a nodwyd a Gweinidogion Cymru sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd, mae'r ddyletswydd yn aros gyda nhw pan fyddant yn caffael, yn comisiynu, yn gweithio mewn partneriaeth neu'n rhoi gwaith ar gontract. Nid yw'r gofyniad i fodloni'r ddyletswydd yn trosglwyddo i drydydd parti. Fodd bynnag, byddai Llywodraeth Cymru yn annog pob corff cyhoeddus arall i ystyried yr adnoddau sydd ar gael i'w cefnogi pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ar sail ansawdd.

Mae'r ddyletswydd ansawdd yn berthnasol i Weinidogion Cymru o ran eu swyddogaethau sy'n ymwneud ag iechyd a chyrff y GIG. Nid yw'n uniongyrchol berthnasol i ddarparwyr gofal sylfaenol ac mae angen rhoi ystyriaeth benodol i'r cyfrifoldebau mewn gwasanaethau a gomisiynir a gwasanaethau a letyir.

**Cwestiwn 6**

**A yw hi'n amlwg pwy sy'n gyfrifol am y ddyletswydd ansawdd mewn gwasanaethau a gomisiynir a gwasanaethau a letyir?**

**Ydy**

**Nac ydy**

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydy' yw'r ymateb).**

## Adran 2

### Diffinio ansawdd

I gyrff y GIG a Gweinidogion yng Nghymru, mae hyn yn golygu bod ansawdd yn cael ei ddiffinio fel rhywbeth sy'n diwallu anghenion y boblogaeth yr ydym yn eu gwasanaethu, a hynny mewn modd parhaus, dibynadwy a chynaliadwy.

Wrth gyflawni hyn, bydd angen i gyrff y GIG a Gweinidogion Cymru sicrhau bod gwasanaethau gofal a chymorth yn **ddiogel, yn effeithiol, yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn amserol, yn effeithlon, ac yn gyfiawn**. Am esboniad manylach o'r chwe maes ansawdd, gweler y ddogfen ganllawiau, adran 6. Bydd y canllawiau statudol ar y ddyletswydd ansawdd sy'n ymgorffori'r chwe maes ansawdd a'r pum galluogwr ansawdd newydd yn disodli Safonau Iechyd a Gofal 2015 i ffurfio'r safonau ansawdd iechyd a gofal newydd sy'n diffinio ansawdd yn y gwasanaethau a ddarparwn, fel yr amlinellir yn Neddf 2003, ac maent i'w hystyried gan gyrff y GIG wrth iddynt roi'r ddyletswydd ansawdd newydd ar waith.

Bydd angen i bob unigolyn sy'n gweithio mewn gwasanaethau iechyd a gofal ddeall beth mae ansawdd yn ei olygu iddynt hwy ac i'r timau y maent yn gweithio ynddynt. Bydd angen i gyrff y GIG a Gweinidogion Cymru ddeall anghenion eu poblogaeth er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ansawdd a sicrhau bod y gwelliant gofynnol yn digwydd o ran canlyniadau.

### Cwestiwn 7

**A yw'r disgwyliadau o ran ansawdd yn glir o fewn y diffiniad o ansawdd a'r chwe maes ansawdd?**

**Ydynt**

**Nac ydynt**

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydynt' yw'r ymateb).**

### Galluogwyr ansawdd

Disgrifiwyd pum galluogwr ansawdd yn y canllawiau. Maent yn gerrig sylfaen pwysig y gallir adeiladu arnynt i gryfhau'r system rheoli ansawdd. Maent yn cynnwys **Arweinyddiaeth; Diwylliant a gwerthfawrogi pobl; Data i wybodaeth; Dysgu, gwella ac ymchwil a Safbwynt systemau cyfan**. I gael esboniad manylach o'r pum galluogwr ansawdd, darllenwch adran 6 y canllawiau.

Mae'r chwe maes ansawdd a'r pum galluogwr ansawdd yn darparu glasbrint o'r hyn y dylai ansawdd 'da' fod. Dylent fod yn sail i'r dull o wella ansawdd. Gellir eu hystyried fel 'llynyn aur'; yn egwyddorion sy'n berthnasol fwy neu lai ar draws y system.

Mae profiad wedi dangos bod adeiladu a gwneud y cysyniadau hyn yn rhan annatod o'r broses yn gallu cymryd nifer o flynyddoedd.

### **Cwestiwn 8**

**Rydym wedi amlinellu pum galluogwr ansawdd sy'n angenrheidiol, yn ein barn ni, i helpu i roi'r chwe maes ansawdd ar waith. A yw'r eglurhad hwn yn glir yn y canllawiau?**

**Ydy**

**Nac ydy**

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydy' yw'r ymateb).**

### **Cwestiwn 9**

**A oes 'galluogwyr' posibl eraill y dylem ystyried eu cynnwys yn y canllawiau?**

**Oes**

**Nac oes**

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Oes' yw'r ymateb).**

### **Cwestiwn 10**

**Pa adnoddau a deunyddiau ategol fydd yn helpu cyrff GIG i gyflawni eu ddyletswydd ansawdd o dan y Ddeddf?**

**Ydw**

**Nac ydw**

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydw' yw'r ymateb).**

## **Ansawdd**

### **Safonau**

Mae'r chwe maes ansawdd a ddisgrifir uchod, ynghyd â'r pum galluogwr ansawdd, yn darparu fframwaith lefel uchel ar gyfer disgrifio, gweithredu a monitro'r ddyletswydd ansawdd. Maent yn nodi dyheadau lefel uchel y gall pobl yng Nghymru eu disgwyl pan fyddant yn cael gwasanaethau iechyd.

Mae'r meysydd a'r galluogwyr ansawdd newydd hyn yn darparu'r strwythur i weithredu'r ddyletswydd ansawdd, boed ar lefel polisi cenedlaethol, lefel corff GIG

neu ar lefel gwasanaeth unigol. Maen nhw'n berthnasol i bob gwasanaeth a lleoliad clinigol ac anghlinigol lle mae gwasanaethau'r GIG yn cael eu darparu yng Nghymru.

Gyda'i gilydd, mae'r chwe maes ansawdd a'r pum galluogwr ansawdd yn darparu strwythur ar gyfer cryfhau'r system rheoli ansawdd. Mae'r strwythur cryfach yn sicrhau y canolbwyntir ar wella ansawdd gwasanaethau a chanlyniadau i'r boblogaeth.

Wrth ddatblygu'r Canllawiau ar y Ddyletswydd Ansawdd ac adolygu Safonau Ebrill 2015 mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu disodli Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) â Safonau Ansawdd 2023 (h.y. y chwe maes ansawdd a phum galluogwr ansawdd) fel y'u nodir yn adran 6 o'r canllawiau hyn. Mae'r newid hwn yn cael ei wneud gan fod cyflwyno'r Ddyletswydd Ansawdd yn rhoi cyfle i gysoni'r safonau yn uniongyrchol, nid yn unig â'r ddyletswydd ond ag arferion rheoli ansawdd ehangach ym maes iechyd. Mae'r meysydd fel y'u disgrifir yn y canllawiau yn cael eu defnyddio'n helaeth ym maes gofal iechyd ac maent yn cael eu rhoi ar waith yn system iechyd ehangach Cymru. Mae adborth gan randdeiliaid yn nodi bod Safonau 2015 yn orfanwl, yn aml yn berthnasol i ofal eilaidd yn benodol, ac yn gyfyngedig yn eu perthnasedd i'r ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y byrddau iechyd integredig. Mae Safonau Ansawdd newydd 2023 wedi'u cynllunio i symleiddio'r gofynion ac i fod yn hyblyg o ran cylch gwaith eang y Ddyletswydd Ansawdd.

## **Cwestiwn 11**

**Mae'r Safonau Ansawdd 2023 newydd wedi'u seilio ar ddyheadau lefel uchel drwy'r chwe maes ansawdd a'r phum galluogwr ansawdd. A yw'r safonau ansawdd yn glir?**

**Ydynt**

**Nac ydynt**

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydynt' yw'r ymateb).**

## **Cwestiwn 12**

**A yw'r canllawiau'n glir ynghylch sut y bydd Safonau Ansawdd 2023 yn helpu i datblygu'r system rheoli ansawdd ac i asesu cynnydd o ran y ddyletswydd ansawdd?**

**Ydynt**

**Nac ydynt**

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydynt' yw'r ymateb).**

## **Cwestiwn 13**



**A ydych yn credu mai cyflwyno'r model newydd ar gyfer Safonau Ansawdd 2023 a thynnu Safonau Iechyd a Gofal 2015 yn ôl yw'r cam priodol i'w gymryd?**

**Ydw**

**Nac ydw**

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydw' yw'r ymateb).**

#### **Cwestiwn 14**

**Ydych chi'n meddwl y byddai cyfnod pontio'n ddoeth i gyrff y GIG wrth fabwysiadu'r meysydd a'r galluogwyr Ansawdd newydd?**

**Ydw**

**Nac ydw**

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydw' yw'r ymateb).**

### **Adran 3**

#### **Cyflawni'r ddyletswydd**

O dan y ddyletswydd ansawdd:

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru arfer eu swyddogaethau o ran y gwasanaeth iechyd gyda'r bwriad o sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd. Mae'n ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG ac Awdurdod Iechyd Arbennig Cymru'n unig weithredu eu swyddogaethau gyda'r nod o sicrhau gwelliant yn ansawdd y gwasanaethau iechyd.

Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd roi canllawiau i gyrff y GIG mewn perthynas â'r gofyniad i sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd.

Mae hyn yn golygu bod y ddyletswydd ansawdd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG a Gweinidogion Cymru:

Sicrhau bod yr holl benderfyniadau strategol yn cael eu gwneud gyda golwg ar wella ansawdd gwasanaethau iechyd a chanlyniadau iechyd i'r boblogaeth.

Arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n ystyried sut byddant yn gwella ansawdd a chanlyniadau'n barhaus.

Mynd at i fonitro cynnydd o ran gwella gwasanaethau a chanlyniadau o ansawdd a rhannu'r wybodaeth hon â'u poblogaeth fel trefn arferol.

Cryfhau trefniadau llywodraethiant drwy adrodd yn flynyddol ar y camau a gymerir i gydymffurfio â'r ddyletswydd ansawdd ac i asesu maint y gwelliannau yn y canlyniadau.

Sicrhau bod sefydliadau'r GIG yn datblygu eu system rheoli ansawdd gan ganolbwyntio'n briodol ar reoli ansawdd, cynllunio ansawdd, gwella ansawdd a sicrhau ansawdd gyda'r nod o sicrhau amgylchedd gwella a dysgu a chreu diwylliant ansawdd mewn sefydliadau.

Mae'r canllawiau'n amlinellu chwe cham y disgrifiodd yr Health Foundation<sup>8</sup> hwy fel rhai y dylai sefydliad eu cymryd i gynllunio, darparu a dal ati i ganolbwyntio ar wella ansawdd, fel sy'n angenrheidiol. Mae'r camau hyn yn cynnwys:

- Sicrhau cefnogaeth y Bwrdd
- Asesu parodrwydd
- Sicrhau cefnogaeth ehangach gan y sefydliad a chreu gweledigaeth ar y cyd
- Datblygu seilwaith a sgiliau gwella
- Cysoni a chydlynw gweithgarwch
- Cynnal dull gweithredu ar draws y sefydliad

## **Cwestiwn 15**

**A yw'r canllawiau'n glir o ran sut byddai corff GIG yn bodloni'r chwe cham sydd wedi'u rhestru uchod?**

**Ydynt**

**Nac ydynt**

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydynt' yw'r ymateb).**

## **Gofynion adrodd ar ansawdd**

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y camau y maent wedi eu cymryd i gydymffurfio â'r ddyletswydd i arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd, gyda'r nod o sicrhau gwelliant yn ansawdd y gwasanaethau iechyd. Rhaid i'r adroddiad gynnwys asesiad o faint unrhyw welliant yn y canlyniadau a gyflawnir yn rhinwedd y camau hynny, a rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o'r adroddiad gerbron y Senedd (a fydd hefyd ar gael i'r cyhoedd)..

Mae'n ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG ac Awdurdod Iechyd Arbennig Cymru'n unig gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y camau a gymerodd i gydymffurfio â'r ddyletswydd i arfer ei swyddogaethau gyda'r bwriad o sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd. Rhaid i'r adroddiad gynnwys asesiad o faint unrhyw welliant yn y canlyniadau a gyflawnwyd yn rhinwedd y camau hynny.

---

<sup>8</sup> The Health Foundation (2019) The improvement journey: Why organisation-wide improvement in health care matters, and how to get started <https://www.health.org.uk/publications/reports/the-improvement-journey>

Mae angen i adroddiadau ar ansawdd fod yn ystyrlon i sefydliadau ac i'n poblogaeth er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddysgu a gwella mewn amser real. Cynigir y dylid cyflawni'r ymrwymiad i adrodd mewn dwy ffordd – adroddiad ansawdd naratif blynyddol gyda dull gweithredu “ar waith bob amser” yng nghyswllt adrodd ar ansawdd yn ategu hynny. Mae'n ofynnol i'r adroddiad gynnwys asesiad o faint unrhyw welliant yn y canlyniadau a gyflawnwyd yn rhinwedd cymryd camau i sicrhau gwelliant yn safon y gwasanaethau iechyd. Mae'r canllawiau'n cynnwys awgrymiadau am y dystiolaeth y gall sefydliadau ei defnyddio i helpu i gyflawni'r asesiad hwn ac arweiniad ar gynnal asesiad o'r fath.

#### **Cwestiwn 16**

**A yw'r canllawiau'n glir ynghylch beth a olygir wrth adrodd ‘ar waith bob amser’?**

**Ydynt**

**Nac ydynt**

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai ‘Nac ydynt’ yw'r ymateb).**

#### **Cwestiwn 17**

**A yw'r systemau adrodd arfaethedig (‘ar waith bob amser’ ac adroddiad blynyddol naratif) yn ddigon i gyrff y GIG sicrhau Gweinidogion Cymru a'r cyhoedd?**

**Ydynt**

**Nac ydynt**

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai ‘Nac ydynt’ yw'r ymateb).**

### **Adran 4**

#### **Y Bwrdd - gwneud penderfyniadau, monitro a sicrwydd**

Mae'r ddyletswydd ansawdd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a chyrff y GIG feddwl a gweithredu'n wahanol ynghylch ansawdd. Mae gofyn rhoi hyn ar waith ar draws pob swyddogaeth yng nghyd-destun anghenion llesiant ac iechyd eu poblogaethau. Rhaid iddynt ganolbwyntio ar wneud penderfyniadau a chynllunio sy'n seiliedig ar ansawdd fel dull gweithredu ar draws y system i sicrhau canlyniadau gwell yn y pen draw i bawb y mae angen gwasanaethau iechyd arnynt. Rhaid iddynt ganolbwyntio ar ddysgu a gwella mewn diwylliant sy'n seiliedig ar ansawdd fel cydgyfrifoldeb.

Rhaid i gyrff y GIG weithredu a monitro eu cynnydd o ran y ddyletswydd ansawdd yn unol â'r trefniadau llywodraethiant presennol y gallai fod angen eu haddasu i integreiddio'r ddyletswydd.

Rhaid i strwythurau a phrosesau newydd sy'n cael eu sefydlu wneud gofynion ddyletswydd ansawdd yn rhan annatod ohonynt.

Bydd angen i'r Bwrdd geisio sicrwydd ar draws ei system bod y ddyletswydd ansawdd yn cael ei chyflawni mewn ffordd gynaliadwy gyda threfniadau monitro priodol ar waith i sicrhau bod gwelliannau ansawdd yn cael eu cynnal.

Bydd y gwaith o fonitro'r ddyletswydd yn cael ei wneud yn rhan annatod o'r trefniadau allanol presennol perthnasol. Bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ystyried y ddyletswydd fel rhan o'i swyddogaethau.

## **Cwestiwn 18**

**A yw'r canllawiau'n glir ynghylch cyfrifoldeb cyfun y Bwrdd i sicrhau:**

- penderfyniadau sy'n cael eu llywio gan ansawdd
- cymhwyso'r ddyletswydd ansawdd ar draws y system gyfan
- canolbwyntio ar ddysgu ac ar wella ansawdd mewn modd cynaliadwy
- sicrhau gwasanaethau o ansawdd gwell a chanlyniadau gwell i bobl
- monitro priodol yn digwydd i sicrhau bod gwelliannau o ansawdd yn cael eu cynnal

**Ydynt**

**Nac ydynt**

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydynt' yw'r ymateb).**

## **Cwestiwn 19**

**A yw'r canllawiau'n glir ynghylch sut bydd monitro'r ddyletswydd ansawdd yn rhan annatod o weithdrefnau presennol Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru?**

**Ydynt**

**Nac ydynt**

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydynt' yw'r ymateb).**

## Adran 5

### Asesiadau Effaith Integredig

Mae ystyried gwahaniaethau iechyd yn ofalus, ac asesu a deall sut mae'r polisiau rydym yn eu rhoi ar waith yn cael effaith wahanol neu anghymesur ar wahanol grwpiau, yn hanfodol i'r broses o lunio polisiau.

Drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r cynigion hyn, rydym wedi rhoi pwys mawr ar ystyried cydraddoldeb, gan gynnwys effaith y newidiadau hyn ar wahanol grwpiau, yn enwedig y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010<sup>9</sup>.

O'r gwaith rydym wedi'i wneud hyd yma, rydym o'r farn nad yw'r cynigion yn debygol o gael effaith negyddol uniongyrchol ar unrhyw un grŵp. Bydd y ddyletswydd ansawdd o fudd i bawb sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG yng Nghymru. Fodd bynnag, gofynnir am ragor o wybodaeth am yr effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu dadansoddi a byddant yn sail i benderfyniadau a wneir ynghylch y cynigion.

Mae ein hystyriaethau hyd yma yn awgrymu y gallai'r cynigion gael effaith anuniongyrchol anghymesur (ond nid effaith negyddol) ar bobl â nodweddion penodol – yn enwedig anabledd ac oedran. Y rheswm dros yr effaith anuniongyrchol hon yw bod pobl yn y grwpiau hyn yn rhyngweithio'n amlach â'r system gofal iechyd. Ein hasesiad ni yw y byddai'r effaith anuniongyrchol hon yn un lesol.

### Cwestiwn 20

**Beth yw eich barn chi am y ffordd y gallai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn effeithio ar y canlynol?**

- pobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010<sup>10</sup>;
- gwahaniaethau iechyd; neu
- grwpiau agored i niwed yn ein cymdeithas.

**Rhowch eich sylwadau yma:**

### Cwestiwn 21

**Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion ar gyfer y ddyletswydd ansawdd yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r**

<sup>9</sup> Deddf Cydraddoldeb 2010, cyrchwyd yn <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents>

<sup>10</sup> Mae'r nodweddion canlynol yn nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010—oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol.

**Saesneg.**

**Er enghraifft, beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

**Rhowch eich sylwadau yma:**

#### **Cwestiwn 22**

**Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y ddyletswydd ansawdd arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac osgoi effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

#### **Cwestiwn 23**

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.**

**Rhowch eich sylwadau yma:**

## **Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

